

Tynnu adenoidau drwy wres a sugnedd

*Mae 'arweiniad
Techlechyd' NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio gwres a sugnedd yn y GIG i dynnu adenoidau plentyn. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n werth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu rhieni neu ofalwyr y cynigiwyd y driniaeth hon i'w plant fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio problemau adenoidau na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o dîm gofal iechyd eich plentyn hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i feddyg eich plentyn i'ch helpu i benderfynu. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 6.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn gyffredinol fel opsiwn triniaeth i blant y mae angen tynnu eu adenoidau, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod rhiant neu ofalwr y plentyn yn deall beth y mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Mae NICE wedi dweud mai dim ond llawfeddygon â hyfforddiant yn y dechneg a ddylai gyflawni'r driniaeth hon oherwydd y gall niwed gwres i feinwe gyfagos, yn anaml, achosi syndrom Grisel.

Efallai nad hon yw'r unig ffordd o dynnu adenoidau plentyn. Dylai tîm gofal iechyd eich plentyn siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i'ch plentyn a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Tynnu adenoidau drwy wres a sugnedd

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'adenoidectomi diathermedd sugnedd'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch ag arbenigwr eich plentyn i gael disgrifiad llawn.

Dau lwmpyn bach o feinwe yng nghefn y gwddf, ger y tonsiliau yw adenoidau. Fel arfer maent yn helpu i ymladd heintiau'r clustiau, y trwyn a'r gwddf mewn plant bach. Mae adenoidau ar eu mwyaf o ran maint mewn plant bach ac maent fel arfer yn diflannu erbyn iddynt dyfu'n oedolion ifanc.

Llawdriniaeth i dynnu'r adenoidau yw adenoidectomi. Fel arfer caiff ei gyflawni os yw'r adenoidau yn chwyddo cymaint nes bod plant yn methu ag anadlu'n iawn drwy eu trwynau, neu os credir eu bod yn achosi problemau iechyd megis 'clust ludiog'. Yn aml caiff y driniaeth i dynnu'r adenoidau ei chyfuno â thonsilectomi a/neu osod gromedau. Caiff

Gwybodaeth am arweiniad IechydTech NICE 209

adenoidau plentyn eu tynnu pan fo'r plentyn dan anesthetig cyffredinol bob amser. Fel arfer bydd y llawfeddyg yn defnyddio offer torri (ciwrét) i dynnu'r adenoidau o gefn y gwddf drwy'r geg. Mae'r driniaeth y mae NICE wedi edrych arni hefyd yn golygu cyrraedd yr adenoidau drwy'r geg, ond mae'n defnyddio gwres (a gaiff ei gynhyrchu gan gerrynt trydan) a sugnedd i ddinistrio ac yna i dynnu meinwe'r adenoid, â'r nod o leihau gwaedu.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw meddyg eich plentyn yn credu bod hon yn driniaeth addas i'ch plentyn, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno iddi.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl i'm plentyn?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i'm plentyn? A allai cael y driniaeth wneud i'm plentyn deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen ar fy mhlentyn ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na fydd fy mhlentyn yn cael y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar 5 astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 2252 o gleifion a gafodd adenoïdectomi, roedd y driniaeth yn llwyddiannus mewn 1721 o'r 1812 o gleifion a gafodd driniaeth â gwres (diathermedd) a sugnedd. Dangosodd astudiaeth o 100 o gleifion y tynnwyd mwy o feinwe adenoid â'r driniaeth â gwres a sugnedd nag a wnaed â'r driniaeth draddodiadol. Nododd astudiaeth o 126 o gleifion bod y ddwy ffordd o dynnu'r adenoidau (diathermedd sugnedd a churet) wedi arwain at lai o symptomau.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr mai ffactorau llwyddiant yw colli llai o waed (sy'n arbennig o bwysig mewn plant bach), tynnu meinwe'r adenoid yn llwyr a lliniaru symptomau (er enghraifft, haint ac apnoea cwsg, sef pan gaiff yr anadlu ei atal wrth gysgu).

Risgiau a phroblemau posibl

Yn yr astudiaeth o 2522 o gleifion, collwyd 4.31 ml o waed ar gyfartaledd ar ôl y dechneg gwres a sugnedd (359 o gleifion) o gymharu â 24 ml ar gyfartaledd (139 o gleifion) ar ôl y dechneg curet safonol.

Edrychodd dwy astudiaeth ar waedu ar ôl y driniaeth. Mewn 1 astudiaeth ni nodwyd gwaedu yn y 77 o gleifion a gafodd y dechneg gwres a sugnedd, ond cafodd 7 allan o 72 o gleifion a gafodd y dechneg safonol waedu.

Mewn astudiaeth o 276 o gleifion, cafodd nifer debyg o gleifion o bob grŵp wddf stiff ar ôl y driniaeth (8 allan o 93 o gleifion a gafodd y dechneg gwres a sugnedd ac 8 allan o 84 o gleifion a gafodd y dechneg curet safonol).

Mewn astudiaeth o 1206 o gleifion nodwyd i 1 claf gael cyflwr gwddf anghyffredin, sef Syndrom Grisel. Roedd adroddiad achos o hyn yn digwydd mewn plentyn arall hefyd. Gwellodd y cyflwr ar ôl 3 wythnos mewn 1 claf ond roedd gallu'r claf arall i symud ei wddf yn llai 9 mis ar ôl y driniaeth. Datblygodd un plentyn broblem gwddf wahanol ond gwnaeth hon wella ar ôl 4 wythnos o driniaeth feddygol.

Nododd dwy astudiaeth broblemau â thafnod feddal y geg ar ôl y driniaeth (ddim yn cau'n iawn wrth siarad a llyncu). Mewn 1 astudiaeth digwyddodd hyn mewn 16 allan o 1206 o gleifion. Gwnaeth hyn wella o fewn 6 mis ym mhob un ond 1 claf. Mewn astudiaeth arall digwyddodd hyn mewn 3 allan o 68 o gleifion a gafodd y dechneg gwres a sugnedd, o gymharu â 4 allan o 58 o gleifion a gafodd y dechneg curet safonol. Gwaeth hyn wella yn yr holl gleifion o fewn 4 wythnos. Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr bod Syndrom Grisel (sy'n effeithio ar yr esgyrn yn y gwddf), niwed gwres, llosgiadau, creithio a heintiau ymhlith y problemau posibl.

Rhagor o wybodaeth am adenoidau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi.

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud ag 'adenoidectomi diathermedd sugnedd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/HTG209

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8107-6

N2091 1P Dec 09

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2009. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.